

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

Taf o Ebrill 2019 – 31ain o Fawrth 2020



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**

South Wales
Fire and Rescue Service

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Uchafbwyntiau 2019 - 2020	3
Cefndir Safonau'r Gymraeg	4
Safonau a gymhwyswyd i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru	4
Tudalen Gwefan Safonau'r Gymraeg	6
Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfedd	7
Systemau Monitro ac Adrodd	8
Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg	8
Polisiâu a Gweithdrefnau Corfforaethol	8
Swyddi a sgiliau'r iaith Gymraeg	9
Recriwtio Diffoddwyr Tân y System Ddyletswydd Gyflawn 2019 - 2020	10
Darparu Hyfforddiant Cymraeg	11
Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru	11
Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - y 6ed o fis Rhagfyr	12
Nifer yr ymweliadau â thudalennau'r wefan Gymraeg	13
Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau cyfryn gau cymdeithasol	14
Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg	16
Hyfforddiant a chysiau drwy gyfrwng y Gymraeg	16
Galwadau ffôn a Gohebiaeth a Dderbyniwyd yn Gymraeg	17
Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg	17
Atodiad 1 - Pantomeimiau Bernie	18
Atodiad 2 - Penwythnos 999 21ain-22ain o Fedi 2019	19

Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n falch o gyhoeddi ei Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2019-2020. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fonitro ei gynnydd yn erbyn y Safonau, gan gydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru ill dau. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon i gymunedau De Cymru ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella ein darpariaeth Gymraeg.

Uchafbwyntiau 2019 - 2020

- Datblygu System Rheoli Gwybodaeth newydd (SRhGB) ar gyfer monitro ac adrodd cydymfurfedd â'r Safonau
- Blwyddyn gynhyrchiol iawn i'r Cyfieithwyr Cymraeg gyda 290,151 o eiriau'n cael eu cyfieithu
- Ymgyrch Recriwtio Diffoddwyr Tân llwyddiannus gyda'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn y camau recriwtio gwahanol yn cael eu cofnodi
- Blwyddyn brysur o ran y Gymraeg a Diwylliant Cymru, yn hyrwyddo dyddiadau pwysig yn y Calendr Cymreig ar hyd y Gwasanaeth
- 'Bernie'r Ddafad', cymeriad y Gwasanaeth, oedd Seren y Sioe mewn nifer o bantomeimiau Cymraeg i blant ysgol (Gweler Atodiad 1)
- Digwyddiad 999 mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (gweler Atodiad 2)

Cefndir Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol yn ogystal â gwneud darparu ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd yn ofynnol.

Mae Adran 44 o Fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno hysbysiad Cydymffurfio, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yn dilyn hyn cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, diben Safonau'r Gymraeg yw darparu:

- Eglurdeb o ran y Gymraeg i sefydliadau
- Eglurdeb i siaradwyr Cymraeg o ran pa wasanaethau y gellir disgwyl eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwell cysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg ac ansawdd gwell i ddefnyddwyr

Safonau a gymhwysir at Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae cyfanswm o 150 o Safonau'r Gymraeg bellach ar waith o fewn y categorïau canlynol:

- **Darparu gwasanaethau** 66 o safonau
- **Llunio polisïau** 9 safon
- **Gweithredol** 47 o safonau
- **Cadw cofnodion*** 8 safon
- **Atodol*** 20 o Safonau ar draws 4 categori

Cymhwysir y Safonau ar gyfer cadw cofnodion* a'r Safonau atodol* i helpu sefydliadau â'r broses o hunan-reoleiddio eu cydymffurfiaeth.



Safonau'r Gymraeg

Yn y Cartref

Mewn Busnes

Diogelwch ar y Ffyrdd

Eich Cymuned

Pwy ydym ni / Safonau'r Gymraeg

Safonau'r Gymraeg

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ein Perfformiad

Ein Targedau

Gynllun Strategol 2020–2030

Cynllun Gwella 2018–2019

Ystadegau Perfformiad

Grwpiau Rhwydwaith Staff

Polisi Corfforaethol

Safonau'r Gymraeg

Welsh Language Rights

Straeon Staff

Cymunedau Du, Asiaidd ac
Ethnig o fewn y Gwasanaeth

Safonau'r Gymraeg ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiad mewnol ac yn mynnu bod darpariaeth ar gael i'r cyhoedd o ran hygyrchedd y Gymraeg.

Cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae safonau'r Gymraeg yn darparu

- Eglurder i sefydliadau ar yr iaith Gymraeg
- Eglurder i siaradwyr Cymraeg ar ba wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Mwy o gysondeb mewn Gwasanaethau Cymraeg a gwella ansawdd i ddefnyddwyr

Mae'r rheoliadau'n nodi bod Mesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd Cymru ddyroddi Hysbysiad Cydymffurfio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu fwy o safonau sy'n benodol gymwys iddo.

Rhoddydd 150 o Safonau Cymraeg i'r Awdurdod er mwyn cydymffurfio o fewn meysydd; cyflwyno gwasanaethau, llunio polistau, gweithredu a Chadw cofnodion.

Safonau'r Gymraeg – llyfrgell ddogfennau

Ceir hyd i'n dogfennaeth Safonau'r Gymraeg drwy'r dolenni isod:

Tudalen Wefan Safonau'r Gymraeg

Mae gan y Gwasanaeth dudalen benodol ar gyfer safonau'r Gymraeg dan 'Pwy ydym ni' ar ddewislen gwefan y Gwasanaeth. Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth am gyflwyno Safonau'r Gymraeg ynghyd â dolenni i Hysbysiad Cydymffurfio, Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Awdurdod.

Darperir manylion i ddefnyddiwr y wefan yn esbonio sut i gofrestru cwyn neu ganmoliaeth mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau a rhoddir manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch ein Gwasanaeth a'r Gymraeg.

Dolen i dudalen Safonau'r Gymraeg:

www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/safonau-gymraeg

Gweithdrefn ar gyfer cwynion a chanmolaeth mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg:

<https://www.decymru-tan.gov.uk/cysylltu-a-ni>

Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfedd

Cyfrifoldeb y Tîm Arwain Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaethau yw cydymffurfedd yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Safonau sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy ac mae'n ofynnol iddynt gynnal adolygiad cydymffurfio unwaith y flwyddyn.

Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth hunan-reoleiddio ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn golygu monitro ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn rhoi digon o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda ni neu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo â hunan-reoleiddio yw'r Safonau ar gyfer cadw cofnodion a'r Safonau atodol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gofnodi'n gyfnodol sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut rydym yn delio â'r cyhoedd. Mae cofnodi'r manylion hyn yn ein galluogi i ddangos sut rydym yn cynnal cydymffurfedd.

Mae monitro cydymffurfedd â'r safonau hefyd yn golygu cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn y 30ain o Fedi bob blwyddyn. Mae cynnwys yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Y modd y mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â gwahanol ddosbarthiadau o Safonau
- Y nifer o weithwyr â Sgiliau Iaith Gymraeg - Safon 147
- Y Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) o aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, anwytho, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 148
- Y nifer o swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categorio fel rhai gyda Sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol, neu angen eu dysgu - Safon 151
- Y nifer o gwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad am bob dosbarth o Safonau - Safon 143

Systemau Monitro ac Adrodd

Yn Chwefror 2020 dechreuodd y Gwasanaeth ddatblygu adran o fewn ei System Rheoli Gwybodaeth Busnes i fonitro ac adrodd ei gydymffurfedd â'r Safonau. Mae SRhGB yn system arloesol a ddefnyddir i gofnodi a rheoli tasgau sy'n deillio o gynlluniau Busnes, risgiau, archwiliadau, dangosyddion perfformiad a phrosiectau. Aseinir 'perchennog' i bob Safon a fydd yn gyfrifol am ddarparu sylwadau ar gydymffurfedd yn chwarterol. Dengys tudalennau Dangosfwrdd o fewn y system berfformiad a chyfeiriad cyffredinol pob Safon.

Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg

Penododd y Gwasanaeth ddau gyfieithydd parhaol - un llawn amser ac un rhan amser - a bydd hwn yn arwain at ddatrasiad cyfieithu tymor hir wrth hefyd eithafu budd meddalwedd cof cyfieithu'r Gwasanaeth. Mae systemau bellach ar waith i gofnodi maint y gwaith cyfieithu a gyflawnwyd yn flynyddol - gweler y ffigyrau isod:

Cyfanswm y geiriau o'r 1af o Ebrill 2019 - i'r 31ain o Fawrth 2020

- Cyfieithwyd: 290,151
- Prawf ddarllenwyd: 75,220

Polisiâu a Gweithdrefnau Corfforaethol

Cwblheir Asesiad Risg Cydraddoldeb ar gyfer pob polisi a gweithdrefn gan gynnwys dogfennau hŷn sy'n cael eu diwygio – mae laith yn un o Nodweddion Gwarchoddedig yr asesiad risg. Mae gan y Gwasanaeth ddeg polisi Corfforaethol sy'n cadarnhau holl ddarpariaethau a gweithgareddau cefnogol y Gwasanaeth i'r cyhoedd. Cyhoeddir y polisiâu ar wefan y Gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg ill dau a gellir eu cyrchu yma:

www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydyn-ni/polisi-corfforaethol

Swyddi a Sgiliau Iaith Cymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn hysbysebu swyddi gwag trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r rhain yn ymddangos ar y dudalen 'Swyddi Gwag Diweddaraf' ei wefan. Mae pob swydd o fewn y Gwasanaeth yn cael eu categorio yn swyddi Cymraeg Hanfodol neu Gymraeg Dymunol. Ar gyfer y swyddi hynny sydd o fewn y categori Hanfodol, asesir ymgeiswyr ar eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r proses Llunio Rhestr Fer a Dethol.

Gweler y ffigyrau isod:

Swyddi Newydd a Swyddi Gwag Ebrill 2018 - Mawrth 2019

- Cymraeg Hanfodol: 4
- Cymraeg Dymunol: 54

Recriwtio Diffoddwyr Tân System Ddyletswydd Gyflawn 2019 - 2020

Yn ystod Hydref 2019 lansiodd y Gwasanaeth Ymgyrch Recriwtio Diffoddwyr Tân y System Ddyletswydd Gyflawn a derbyniodd pob ymgeisydd ffurflen Monitro Cydraddoldeb y Gwasanaeth sy'n gofyn 'Ydych chi'n Siaradwr Cymraeg?' Mae'r ffurflen yn cynnig ystod o ymatebion: Nac Ydw / Dysgwr / Canolradd / Rhugl / Gwell gen i beidio ateb. Dangosir atebion yr ymgeiswyr o fewn y tabl isod.

Nifer yr Ymgeiswyr ym mhob cam	Holl categorïau'r laith Gymraeg	Rhugl	Canolradd	Dysgwr/ Dysgwraig	Ddim yn siarad Cymraeg	Heb nodi
Cofrestrwyd	3,137	298	161	511	2,139	28
Cyflwynwyd Cais	1,784	161	77	325	1,200	21
Yn Llwyddiannus wrth Gyrraedd y Rhestr Fer	481	50	18	104	304	5
Llwyddo yn yr Asesiadau Gallu	209	18	8	53	127	3
Llwyddo yn y Profion Corfforol ac Ymarferol	136	14	6	27	83	6
Gwahoddwyd i Gyfweliad	221	20	8	49	139	5
Llwyddo mewn Cyfweliad	68	5	1	15	34	13
Cael lle ar gyfer hyfforddiant 2020	67	5	1	14	34	13
Wedi Tynnu'n ôl	1			1		
Rhestr Aros ar gyfer cyrsiau'r dyfodol	23					


Darparu Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Cynigir cyrsiau Cymraeg i bob gweithiwr yn flynyddol drwy Hysbysebu'n fewnol gan ddefnyddio Mewnrwyd y Staff ac e-byst Cyffredinol ill dau. Yn ystod blwyddyn Academaidd 2019 - 2020 cofrestrodd pedwar aelod o staff ar ein cyrsiau Cymraeg, a gefnogwyd gan Gronfa Ddysgu Bellach y Gwasanaeth. Cafodd tri gweithiwr fynediad at addysgu drwy law Dysgu Cymraeg Gwent ac un gweithiwr â Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Gwasanaeth wedi hyrwyddo diwylliant Cymru'n fewnol gan ddefnyddio'r fewnrwyd, e-byst cyffredinol, posteri, arwyddion ac adnoddau geirfa Gymraeg. Cynhwysodd hyn hyrwyddo dyddiadau arbennig yng nghalendr Cymru:

- Y 15fed o Hydref - Diwrnod Shwmae
- Y 6ed o Ragfyr 2019 - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Yr 25ain o Ionawr - Diwrnod Santes Dwynwen
- Y 7fed o Chwefror 2020 - Dydd Miwsig Cymru
- Y 1af o Fawrth 2020 - Dydd Gŵyl Dewi



Diwrnod Santes Ddwynwen - y 25ain o Ionawr

Dwynwen y nawddsant cyfeillgarwch a chariad

Mae hanes Santes Dwynwen yn cychwyn yn y Sed ganrif. Roedd Dwynwen yn un o blant niferus Brychan Sant, Tywysog Brycheiniog sef yr ardal yr ydym yn ei hadnabod heddiw fel Bannau Brycheiniog. Mae Dwynwen yn golygu 'honno sy'n arwain bywyd bendithiol.'


Syrthiodd Dwynwen mewn cariad â dyn o'r enw Maelon, ond yn anffodus, roedd Brychan wedi addo y byddai ei ferch yn priodi dyn arall. Pan ddeallodd hi na fyddai'n gallu priodi Maelon, roedd Dwynwen wedi cynhyrfu'n lan ac aeth hi i goedwig sanctaidd gerllaw, i weddio i Dduw a gofyn am help i anghofio am Faelon.

Roedd Dwynwen wedi blino ac aeth i gysgu yn y goedwig lle cafodd ymweliad gan Angel. Rhoddodd yr Angel ddiod hud i Ddwynwen i'w helpu anghofio am Faelon ac o ganlyniad fe drodd Maelon yn floc o iâ. Pan ddeffrodd Dwynwen, gweddiodd i Dduw gan ofyn iddo newid Maelon yn ôl a rhoddwyd tri dymuniad iddi:-

Bod Maelon yn cael ei ddadmer
Bod gwir gariadon yn dod o hyd i hapusrwydd
Na fyddai hi byth yn priodi

Treuliodd Dwynwen weddill ei hoes yn ymroi i Dduw a theithiodd o gwmpas Cymru, gan ymgartrefu ar Ynys Llanddwyn oddi ar arfordir Ynys Môn lle sefydlodd Eglwys. Gellir gweld olion yr Eglwys hyd heddiw. Astudiodd Dwynwen blanhigion a thraddodiadau iachâu tra buodd ar yr ynys a theithiodd pelerinion i'w gweld gan greu bod pwerau iachusol hudol gyda hi. Ers hynny mae Dwynwen wedi cael ei hadnabod fel Santes Ddwynwen.

Beth am wneud rhywbeth arbennig gyda'ch cariad i ddathlu diwrnod Santes Ddwynwen?



Saint Dwynwen's Day - 25th January

Dwynwen is the patron saint of friendship and love

The Story behind Saint Dwynwen dates back to the 5th Century. Dwynwen was one of many children of St. Brychan the Prince of Brycheiniog, the area we know today as the Brecon Beacons. Dwynwen means 'she who leads a blessed life'

Dwynwen fell in love with a man called Maelon, unfortunately Brychan had promised his daughter's hand in marriage to another. When she found out that she would not be able to marry Maelon, Dwynwen was very upset and went to a sacred woods nearby, where she prayed to God and asked for help to forget about Maelon.

Exhausted, Dwynwen fell asleep in the woods and received a visit from an Angel. The Angel gave Dwynwen a potion to help her forget about Maelon and he turned into a block of ice. When she woke Dwynwen prayed to God to reverse the curse and was granted three wishes:-

That Maelon be thawed
That true lovers find happiness
That she would never marry

Dwynwen spent the rest of her life devoted to God. She travelled around Wales, settled on Llanddwyn Island off the coast of Anglesey and established a Church. The remains of the Church can be seen today. Dwynwen studied plants and healing traditions while on the Island and pilgrims travelled to see her believing that she has magical healing powers. Since this time Dwynwen has been known as Saint Dwynwen.

Why not celebrate Saint Dwynwen's Day with your loved one and do something special?

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - y 6ed o Ragfyr

Ar y 6ed o Ragfyr 2019, ymunodd y Gwasanaeth ag ymgyrch Cenedlaethol Diwrnod Hawliau'r Gymraeg i hyrwyddo'r Gwasanaethau Cymraeg a ddarparwyd gan Sefydliadau Cyhoeddus yng Nghymru. Pennwyd y dyddiad gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i nodi'r diwrnod yn 2010 pan basiwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010.

Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn rhoi'r cyfle i hysbysu pobl o'u hawliau i dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyd-lynodd y Gwasanaeth ei hymgyrch hyrwyddo ei hun drwy Ryngrwyd y Staff a'r Cyfryngau Cymdeithasol a chynhyrchwyd baner naid Hawliau'r Gymraeg sy'n cael ei ddangos yn barhaol yn y Dderbynfa. Crëwyd tudalen bwmpasol ar gyfer Hawliau'r Gymraeg ar ein Gwefan:

www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydyn-ni/safonau'rgymraeg/hawliau'rgymraeg

The screenshot shows the top navigation bar of the Welsh Language Rights website. It includes the logo of Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (South Wales Fire and Rescue Service) and the text 'Pwy ydym ni', 'Ystafell Newyddion', 'Hygyrchedd', and 'Chwilio Safe'. There are also language options for 'ENGLISH' and 'Welsh', and social media icons for Facebook, Twitter, and YouTube. Below the navigation bar, there are several menu items: 'Eich Diogelwch a Lles', 'Ein Gorsafodd Tân', 'Gemau, Addysg ac Adnoddau', and 'Gweithio i NI'. The main banner features a large red dragon graphic with the text 'Welsh Language Rights' and 'Hawliau'r Gymraeg'. Below the banner, there are sections for 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth', 'Ein Perfformiad', and 'Lansio Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - y 6ed o fis Rhagfyr 2019'.

The infographic is titled 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' and 'Welsh Language Rights' Day' with the date '6.12.2019'. It features the logo of Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (South Wales Fire and Rescue Service). The infographic is divided into two columns. The left column lists rights in Welsh: 'Gyda ni, mae gennych chi hawl i...', 'Dogfennau yn Gymraeg', 'Gwefannau yn Gymraeg', 'Gwneud cais am swydd yn Gymraeg', 'Llythyrau ac e-bost yn Gymraeg', 'Ffurflenni yn Gymraeg', 'Negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg', 'Arwyddion yn Gymraeg', 'Defnyddio'r Gymraeg mewn derbynfa', and 'Defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn'. The right column lists rights in English: 'With us, you have the right to...', 'Documents in Welsh', 'Websites in Welsh', 'Apply for a job in Welsh', 'Letters and emails in Welsh', 'Leaflets in Welsh', 'Social media messages in Welsh', 'Signs in Welsh', 'Speak Welsh in a reception', and 'Use Welsh on the phone'. At the bottom, there is a note in Welsh: 'Dyma rai o'r hawliau. Am restr lawn, ac union fanylion yr hawliau sydd gennych chi i ddefnyddio'r Gymraeg, ewch i - comisiynyddygymraeg.cymru/maegenihawl' and a note in English: 'These are some of the rights. For a full list and exact details of your rights to use the Welsh language, go to - welshlanguagecommissioner.wales/myrights'.

Nifer yr ymweliadau â'r wefan Gymraeg

Mae gwefan allanol y Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac mae'n rhoi cyfle i bob ymwelydd fod yn weithredol wrth gyrchu ei chynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cofnodir perfformiad y fersiwn Gymraeg o'r safle yn ystod Ebrill 2019 - Mawrth 2020 o'i gymharu â'r fersiwn Saesneg yn y tabl isod:

Meini Prawf	Y Wefan Gymraeg	Y Wefan Saesneg
YMWELIADAU UNIGRYW	10,931	723,484
DEFNYDDWYR	3,802	167,734
AMSER CYFARTALOG A DREULIWDYD AR Y WEFAN (FESUL SESIWN)	1 munud 41 eiliad	2 munud 3 eiliad
TUDALENNAU MWYAF POBLOGAIDD	Swyddi Gwag Diweddaraf Swyddi Diffoddwyr Tân Gweithio â ni	Swyddi Gwag Diweddaraf Diffoddwyr Tân ar Alwad y System Ddyletswydd Gyflawn 2020

Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod ei holl ymgyrchoedd hyrwyddo a diogelwch drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol yr un mor hygyrch i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg ill dau. Cyflawnwyd hyn drwy greu sianeli ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, gyda chyfrif Trydar pwrpasol Cymraeg @TanDeCymru yn ogystal â thudalen Facebook bwrpasol Gymraeg.



	@TanDeCymru	@SWFireandRescue
DILYNWYR (EBRILL 2019 – MAWRTH 2020)	147	30,000
NEGSEUON TRYDAR	2,000	2,500
ARWYDDION HOFFI	361	26,000



Meini Prawf

	Tudalen Gymraeg	Tudalen Saesneg
DILYNWYR (EBRILL 2019 – MAWRTH 2020)	234 to 262	23,567 to 28,305
ARWYDDION HOFFI NEWYDD (EBRILL 2019 - MEHEFIN 2019)	10	756
ARWYDDION HOFFI NEWYDD (GORFFENNAF 2019 - MEDI 2019)	6	590
ARWYDDION HOFFI NEWYDD (HYDREF 2019- RHAGFYR 2019)	3	152
ARWYDDION HOFFI NEWYDD (IONAWR 2020 - MAWRTH 2020)	8	2,010

Nifer y staff sydd â sgiliau Iaith Gymraeg

Mae gan Borthol AD y Gwasanaeth y gallu i gofnodi Sgiliau Iaith. Gofynnir i bob gweithiwr asesu lefel eu sgiliau ddarllen, siarad, deall ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg o 0 i 5 yn ogystal â nodi ai Cymraeg neu Saesneg yw eu dewis iaith. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at gynyddu'r nifer o Hunan-Asesiadau a gwblheir gyda chyhoeddiadau ar safwe'r Fewnrwyd, ebyst cyffredinol a dogfennau canllaw.

Sgil	Sgôr 0	Sgôr 1-5	Crynodeb Iaith Gymraeg
Darllen	35	12	47
Siarad	1	10	11
Deall	4	5	9
Ysgrifennu	2	1	3
Cyfanswm	42	28	70

Hyfforddiant a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae dau brif bwynt cyswllt ar gyfer hyfforddi staff, sef y Tîm Dysgu a Datblygu ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân a'r Ganolfan Hyfforddi a Datblygu ym Mhorth Caerdydd. Ni chynhaliwyd unrhyw gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn hon ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar eu cyfer yn ystod 2019 - 2020.

Galwadau ffôn a Gohebiaethau a Dderbyniwyd yn Gymraeg

Derbyniwyd cyfanswm o 69 galwad ffôn Cymraeg gan ein prif switsfwrdd yn y Pencadlys yn y cyfnod Medi 2019 – Mawrth 2020. Mae trefniadau ychwanegol wedi'u gwneud gan yr adran Cefnogi Busnes i gofnodi galwadau mewn ffordd a fydd yn hwyluso adrodd manylach dros y flwyddyn. Derbyniwyd un e-bost Cymraeg gan yr adran Cefnogi Busnes. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth Gymraeg arall.

Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg

Mae'r adran Cymorth Busnes yn cofnodi'r holl gwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth drwy'r dudalen 'Cysylltwch â Ni' a'r adran honno sy'n ymdrin â'r cwynion hynny i gychwyn. Yn dilyn hynny cyfeirir unrhyw gwynion at yr adran berthnasol. Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw gwyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg 2019 - 2020.

Atodiad 1 - Pantomeimiau Bernie

Arweiniwyd y Prosiect Bernie arloesol gan grŵp o Fyfyrrwyr Coleg i helpu lleihau'r nifer o danau glaswellt bwriadol a all effeithio ar gymunedau lleol a chael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Roedd gweithio gyda phobl ifanc yn y Gymuned yn gymorth wrth hwyluso datblygu gweithgareddau a sioeau teithiol. Cynhyrchodd y Gwasanaeth bantomeim gyda Bernie'r Ddafad yn Brif Seren. Enw'r Pantomeim Bernie yw 'Bryn Baskerville' ac fe'i perfformiwyd gan gwmni addysg o'r enw Bollo Cyf.

Yr Hanes: Mae Bernie Holmes, dafad sy'n dditectif byd enwog, yn cael bai ar gam am gynnau tân glaswellt mawr gan ffoi er mwyn profi ei fod yn ddieuog. Mae'r hanes yn mynd i'r afael â phwysau gan gyfoedion gan amlygu canlyniadau tanau glaswellt bwriadol, gwastraff adnoddau a'r effaith ar y gymuned.

Ar ôl y perfformiad mae'r cymeriadau'n ymweld â dosbarthiadau unigol gan ofyn i'r disgyblion arwyddo addewid i beidio â llosgi.

Cofnod o'r Pantomeimiau Bernie a berfformiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg 2019 - 2020.

Bwrdeistref Sirol	Ysgol/Lleoliad	Dyddiadau	Niferoedd Cynulleidfaoedd
Pen-y-bont ar Ogwr	YGG Cynwyd Sant	04/04/2019	123
Caerffili	YGG Cwm Gwyddon	08/04/2019	88
	YGG Ifor Bach	10/03/2020	26
			114
Rhondda Cynon Taf	YGG Llyn Y Forwyn	12/04/2019	71
	YGG Llwyncelyn	12/04/2019	114
	YGG Bodringallt	10/03/2020	21
	YGG Ynyswen	10/03/2020	40
			246



Atodiad 2 - Penwythnos 999 21ain - 22ain o Fedi 2019

Cynhaliodd y Gwasanaeth ei gyd-benwythnos 999 cyntaf ar yr 21ain i'r 22ain o Fedi 2019, ynghyd â Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd yn llwyddiant ysgubol a derbyniwyd dros 25,000 o ymwelwyr. Roedd nifer o weithgareddau, arddangosfeydd a dangosiadau difyr i bawb o bob oed. Cynhaliwyd ras a ras gerdded elusennol pum milltir o hyd ar Ddydd Sul, Medi'r 22ain er budd Sefydliad Twannel i Dŵr Stephen Siller.

Gwisgodd staff iaith Gymraeg oedd yn cynnal y digwyddiad llinynnau adnabod â logo 'Iaith Gwaith' i adnabod eu bod yn medru cynnal sgwrs yn Gymraeg. Cyflwynwyd digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Maes Digwyddiadau yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wyth perfformiad o'i bantomeim Teuluol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gyda pherfformiadau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd arwyddion a deunydd hyrwyddo yn ddwyieithog ac roedd pecynnau gwybodaeth i staff a phartneriaid a fynychodd y digwyddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau.



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n croesawu adborth am y wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn a'r ffordd y mae'n cael ei chyflwyno. Cysylltwch â ni drwy ffonio: 01443 232000 neu drwy law e-bost: Cymraeg@decymru-tan.gov.uk



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**

South Wales
Fire and Rescue Service

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.